



TGAU Astudio'r Cyfryngau

Cyflwyniad

Mae cyrsiau TGAU mewn Astudio'r Cyfryngau yn cael eu diwygio yng Nghymru i'w cyflwyno am y tro cyntaf ym mis Medi 2017. Bydd y cyrsiau TGAU mewn Astudio'r Cyfryngau yn cael eu llunio a'u cyflwyno gan CBAC, a dyma fydd yr unig fersiynau o'r cymwysterau fydd ar gael i ddysgwyr sy'n dilyn rhaglenni wedi'u hariannu'n gyhoeddus yng Nghymru, gan nad oes unrhyw fwrdd arholi arall wedi penderfynu datblygu'r cymwysterau hyn i'w defnyddio yng Nghymru. Fel rhan o'r broses ddiwygio, rydym yn gofyn am eich barn am gynnwys, strwythur ac asesiad arfaethedig y cymhwyster diwygiedig.

Rydym wedi datblygu'r cynigion yn yr holiadur hwn trwy ymgynghori â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys CBAC, ymarferwyr mewn ysgolion a cholegau, prifysgolion a Llywodraeth Cymru. Bydd deilliannau'r holiadur hwn yn helpu i lywio datblygiad y meini prawf cymeradwyo a'r amodau rheoleiddiol ar gyfer y cwrs TGAU newydd mewn Astudio'r Cyfryngau. Bydd y manylebau a'r deunyddiau asesu enghreifftiol ar gyfer y cymwysterau hyn yn cael eu datblygu a'u cymeradwyo ar sail y meini prawf cymeradwyo a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru.



TGAU Astudio'r Cyfryngau

TGAU Astudio'r Cyfryngau

Gellir gweld nodau a chynnwys pwnc TGAU presennol Astudio'r Cyfryngau trwy ddilyn y ddolen isod:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/371260/2011-11-25-gcse-subject-criteria-for-media-studies.pdf

Mae TGAU Astudio'r Cyfryngau yn cael ei diwygio yn Lloegr hefyd. Gellir gweld nodau pwnc a gofynion cynnwys TGAU diwygiedig Astudio'r Cyfryngau yn Lloegr fel y'u cyflwynwyd gan yr Adran Addysg (DfE) trwy ddilyn y ddolen isod:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/459554/2017-GCSE-Media-Studies-subject-content.pdf

Nodau ac amcanion pwnc

Mae nodau presennol pwnc TGAU Astudio'r Cyfryngau yn datgan bod nodau ac amcanion yr holl fanylebau TGAU ar gyfer Astudio'r Cyfryngau yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddysgwyr:

- ddatblygu sgiliau ymholi, meddwl yn feirniadol a gwneud penderfyniadau trwy ystyried materion sy'n bwysig, yn real ac yn berthnasol i ddysgwyr ac i'r byd y maent yn byw ynddo;
- datblygu eu gwerthfawrogiad a'u dealltwriaeth feirniadol o'r cyfryngau a'u rôl yn eu bywyd bob dydd;
- datblygu eu sgiliau ymarferol trwy gyfleoedd am greadigrwydd ac ymgysylltu personol;
- deall sut i ddefnyddio cysyniadau allweddol y cyfryngau i ddadansoddi cynhyrchion y cyfryngau a'u hamrywiol gyd-destunau.

Ar gyfer y TGAU diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru, cynigiwn fabwysiadu'r nodau ac amcanion presennol, ond gyda rhai mân newidiadau fel y'u disgrifir isod.

Rhaid i gwrs TGAU Astudio'r Cyfryngau alluogi dysgwyr i:

- ddatblygu sgiliau ymholi, meddwl yn feirniadol a gwneud penderfyniadau trwy ystyried materion sy'n bwysig, yn real ac yn berthnasol i ddysgwyr ac i'r byd y maent yn byw ynddo;
- datblygu eu gwerthfawrogiad a'u dealltwriaeth feirniadol o'r cyfryngau a'u rôl yn eu bywyd bob dydd;
- datblygu eu sgiliau ymarferol trwy gyfleoedd am greadigrwydd ac ymgysylltu personol;
- deall sut i ddefnyddio cysyniadau damcaniaethol a geirfa arbenigol sy'n benodol i'r pwnc i ddadansoddi cynhyrchion y cyfryngau a'u hamrywiol gyd-destunau;
- gwerthuso'u gwaith eu hunain a myfyrio arno.

C1: I ba raddau yr ydych chi'n cytuno/anghytuno â'r nodau pwnc arfaethedig ar gyfer y TGAU mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



TGAU Astudio'r Cyfryngau

Cynnwys pwnc

Cynigiwn y dylai cynnwys pwnc y TGAU newydd mewn Astudio'r Cyfryngau ar gyfer Cymru gael ei seilio ar gyfuniad o elfennau o feini prawf presennol y pwnc, y gofynion newydd ar gyfer cynnwys sydd wedi'u pennu ar gyfer y TGAU diwygiedig yn Lloegr ac elfennau ychwanegol a awgrymwyd gan randdeiliaid yng Nghymru i ymgorffori safbwynt Cymreig ar y pwnc. Isod, rydym yn amlinellu manylion y cynnwys arfaethedig o dan y penawdau canlynol: gwybodaeth a dealltwriaeth, ffurfiau'r cyfryngau, cynhyrchion y cyfryngau, a sgiliau.

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Cynigiwn y dylai'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol yn y manylebau newydd ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau gyfateb i'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol ym meini prawf presennol y pwnc, gydag un ychwanegiad sydd wedi'i amlygu mewn print bras isod:

- sut mae ffurfiau, codau a chonfensiynau'r cyfryngau yn creu ystyrion;
- cynrychiolaeth yn y cyfryngau: **sut mae'r cyfryngau yn portreadu digwyddiadau, materion, unigolion a grwpiau cymdeithasol**;
- cyd-destunau cynhyrchu, dosbarthu a defnyddio'r cyfryngau
- sut mae gwahanol gynulleidfaoedd/defnyddwyr yn ymateb i gynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau, ac yn rhyngweithio â nhw;
- cynhyrchion, cysyniadau a chyd-destunau'r cyfryngau, i lywio eu gwaith cynhyrchu ymarferol;
- technolegau'r cyfryngau.

Nid ydym yn cynnig pennu manylion y cynnwys sydd i'w gynnwys yn y fanyleb. Disgwyliwn i'r corff dyfarnu amlinellu'r cynnwys manwl a ddefnyddir ar gyfer asesu dysgwyr. Pan fydd yn cyflwyno'i fanyleb ar gyfer ei chymeradwyo, dylai'r corff dyfarnu ddarparu rhesymwaith sy'n esbonio ar ba sail mae cynnwys penodol wedi'i gynnwys.

Disgwyliwn i'r cynnwys sy'n cael ei amlinellu gan y corff dyfarnu gynnwys agweddau ar ddamcaniaeth fel y bo'n briodol i'r pynciau dan sylw ac fel y bo'r angen er mwyn i ffurfiau a chynhyrchion y cyfryngau, a fydd yn cael eu hastudio, gael eu trin yn ystyrion.

C2: I ba raddau yr ydych yn cytuno/anghytuno â'r gofynion gwybodaeth a dealltwriaeth arfaethedig ar gyfer y TGAU newydd mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



TGAU Astudio'r Cyfryngau

Ffuriau'r cyfryngau

Mae'r cynnwys sydd wedi'i bennu ar gyfer pwnc y TGAU newydd mewn Astudio'r Cyfryngau yn Lloegr yn datgan bod yn rhaid i ddysgwyr astudio enghreifftiau o'r holl ffurfiau canlynol ar y cyfryngau:

- teledu
- ffilm
- radio
- papurau newyddion
- cylchgronau
- hysbysebu a marchnata
- cyfryngau ar-lein, cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau cyfranogol
- gemau fideo
- fideos cerddoriaeth

Mae ein hymgyngoriad cychwynnol â rhanddeiliaid yn awgrymu y dylai'r TGAU newydd mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru ei gwneud hi'n ofynnol i ddysgwyr astudio'r holl ffurfiau hyn ar y cyfryngau. Yn ogystal, awgrymodd rhanddeiliaid y dylid cynnwys ystyriaeth o'r safbwynt Cymreig wrth astudio'r ffurfiau hyn ar y cyfryngau, fel y bo'n briodol.

Felly, cynigiwn y dylai'r fanyleb newydd ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru ei gwneud hi'n ofynnol i bob dysgwr ddysgu'r holl ffurfiau uchod ar y cyfryngau a, lle y bo'n briodol, dylid cynnwys safbwynt Cymreig yn yr astudio.

C3a: I ba raddau yr ydych yn cytuno/anghytuno y dylid ei gwneud hi'n ofynnol i ddysgwyr astudio'r holl ffurfiau arfaethedig uchod ar y cyfryngau yn eu hastudiaethau?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

C3b: I ba raddau yr ydych yn cytuno/anghytuno y dylai'r ffurfiau ar y cyfryngau gynnwys safbwynt Cymreig lle y bo'n briodol?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



TGAU Astudio'r Cyfryngau

Cynhyrchion y cyfryngau

Nodwedd newydd a gyflwynwyd gan ofynion y DfE ar gyfer Lloegr yw y dylai pob dysgwr astudio o leiaf un ffurf sain/gweledol, un ffurf print ac un ffurf ar-lein ar y cyfryngau yn fanwl, a gwneud hyn trwy gyflawni astudiaeth fanwl o gynhyrchion cyferbyniol y cyfryngau, wedi'u gosod gan y corff dyfarnu. Awgrymodd rhanddeiliaid yng Nghymru fod y cynnig hwn yn gwella dyfnder ac ehander astudio.

Cynigiwn y dylai'r TGAU diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru ei gwneud hi'n ofynnol i ddysgwyr astudio o leiaf un ffurf sain/gweledol, un ffurf print ac un ffurf ar-lein ar y cyfryngau yn fanwl trwy gyferbynnu cynhyrchion y cyfryngau sy'n cael eu gosod gan y corff dyfarnu. Rhaid darparu dewis o gynhyrchion y cyfryngau i ddysgwyr eu hastudio. Wrth gyflwyno'i fanyleb ar gyfer ei chymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu esbonio sut a pham y mae wedi dewis y cynhyrchion cyfryngau sydd wedi'u cynnwys yn ei fanyleb.

C4a: I ba raddau yr ydych yn cytuno/anghytuno y dylai cynnwys pwnc TGAU Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru gynnwys cynhyrchion gosod ac astudio o leiaf un ffurf sain/gweledol, un ffurf print ac un ffurf ar-lein ar y cyfryngau yn fanwl?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

Hefyd, cynigiwn y dylai cynhyrchion y cyfryngau y mae'r corff dyfarnu yn eu gosod i'w hastudio, o'u hystyried ar y cyd, gynnig digon o sylwedd, arwyddocâd ac amrywiaeth i ganiatáu cyfleoedd am ddehongli, dadansoddi ac archwilio cysyniadau'r cyfryngau a damcaniaethau'r cyfryngau sy'n cael eu hastudio fel rhan o'r cwrs. Yn gyffredinol, cynigiwn fod yn rhaid i gynhyrchion y cyfryngau sy'n cael eu gosod i'w hastudio gynnwys amrywiaeth o strwythurau, ffurfiau, cyfnodau hanesyddol a chynulleidfaoedd bwriadedig; rhaid iddynt gynnwys o leiaf un cynnyrch cyfrwng Cymraeg ac un cynnyrch cyfrwng Saesneg hefyd.

C4b: I ba raddau yr ydych yn cytuno/anghytuno y dylai TGAU Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru gynnwys y gofyniad bod cynhyrchion y cyfryngau yn cynnwys amrywiaeth o strwythurau, ffurfiau, cyfnodau hanesyddol a chynulleidfaoedd bwriadedig?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

C4c: I ba raddau yr ydych yn cytuno/anghytuno y dylai TGAU Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru gynnwys y gofyniad bod o leiaf un cynnyrch cyfrwng Cymraeg ac o leiaf un cynnyrch cyfrwng Saesneg yn cael ei astudio?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddechystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



TGAU Astudio'r Cyfryngau

Sgiliau

Mae meini prawf presennol y pwnc yn datgan bod yn rhaid i holl fanylebau TGAU Astudio'r Cyfryngau ei gwneud hi'n ofynnol i ddysgwyr ddatblygu'r gallu i:

- ddadansoddi ac ymateb i destunau/bynciau'r cyfryngau gan ddefnyddio cysyniadau a geirfa allweddol y cyfryngau;
- ymchwilio i gynhyrchion y cyfryngau a'u cynllunio a'u hadeiladu, a gwerthuso'r cynhyrchion a'r prosesau hynny;
- cyflwyno syniadau a dadleuon, wedi'u cefnogi gan dystiolaeth.

Cynigiwn gadw'r sgiliau gofynnol hyn yn y TGAU diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru.

C5: I ba raddau yr ydych yn cytuno/anghytuno y dylai TGAU Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru gynnwys gofynion sgiliau y fanyleb bresennol?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



TGAU Astudio'r Cyfryngau

Amcanion asesu

Mae Amcanion asesu yn amlinellu sut y dylid asesu cynnwys y pwnc.

Dyma'r amcanion asesu a'u pwysoliad yn y TGAU presennol mewn Astudio'r Cyfryngau:

	Amcan asesu	Pwysoliad
AA1	Adalw, dewis a chyfleu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gynhyrchion y cyfryngau ac ym mha gyd-destunau y maent yn cael eu cynhyrchu a'u defnyddio.	20-30%
AA2	Dadansoddi ac ymateb i destunau/bynciau'r cyfryngau gan ddefnyddio cysyniadau allweddol y cyfryngau a geirfa briodol.	20-30%
AA3	Dangos sgiliau ymchwil, cynllunio a chyflwyno.	20-30%
AA4	Adeiladu a gwerthuso eu cynhyrchion eu hunain gan ddefnyddio sgiliau creadigol a thechnegol.	20-30%

Caiff yr Amcanion Asesu a'r Pwysoliadau canlynol eu cynnig ar gyfer y TGAU diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yn Lloegr:

	Amcan asesu	Pwysoliad
AA1	Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth: <ul style="list-style-type: none">o fframwaith damcaniaethol y cyfryngaucyd-destunau cyfryngau a'u dylanwad ar gynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau	30%
AA2	Dadansoddi cynhyrchion y cyfryngau gan ddefnyddio fframwaith damcaniaethol y cyfryngau, gan gynnwys mewn perthynas â'u cyd-destunau, er mwyn llunio barnau a dod i gasgliadau	40%
AA3	Creu cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa fwriadedig, trwy gymhwysu gwybodaeth a dealltwriaeth o fframwaith damcaniaethol y cyfryngau i gyfleu ystyr	30%

Ar gyfer y TGAU diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru, cynigiwn ddefnyddio amcanion asesu a phwysoliadau tebyg i'r rhai sy'n cael eu cynnig ar gyfer y TGAU diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yn Lloegr, gyda mân newid i destun AA1 i adlewyrchu'r gwahaniaeth yn nodau, amcanion a chynnwys y pwnc.

Cynigiwn ymhellach y dylid cynyddu pwysoliad AA3 i 35% fel y gellir asesu cynllunio, hunanfyfrio a gwerthuso trwy asesiad nad yw'n arholiad.

Cynigiwn yr amcanion asesu a'r pwysoliadau canlynol ar gyfer y TGAU diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru:

	Amcan asesu	Pwysoliad
AA1	Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o: <ul style="list-style-type: none"> gysyniadau damcaniaethol astudiaethau'r cyfryngau cyd-destunau'r cyfryngau a'u dylanwad ar gynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau 	30%
AA2	Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o fframwaith cysyniadol astudiaethau'r cyfryngau: <ul style="list-style-type: none"> i ddadansoddi cynhyrchion y cyfryngau, gan gynnwys mewn perthynas â'u cyd-destunau i werthuso eu gwaith ymarferol eu hunain 	35%
AA3	Datblygu a chreu cynhyrchion y cyfryngau ar gyfer cynulleidfa fwriadedig, trwy gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o fframwaith cysyniadol astudiaethau'r cyfryngau i gyfleu ystyr	35%

C6: I ba raddau yr ydych yn cytuno/anghytuno y dylai'r amcanion asesu sy'n cael eu cynnig gan CBAC gael eu mabwysiadu ar gyfer manylebau TGAU Astudio'r Cyfryngau ar gyfer Cymru?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



TGAU Astudio'r Cyfryngau

Asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau

Mae'r manylebau presennol ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau yn cynnwys asesiad nad yw'n arholiad (fe'i gelwir yn 'dasgu reoledig wedi'i hasesu').

Mae'r cydbwysedd rhwng yr arholiad a'r asesiad nad yw'n arholiad ar gyfer y TGAU diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yn Lloegr yn 70% a 30%, yn y drefn honno. Roedd rhanddeiliaid yng Nghymru o'r farn y dylai cydnabyddiaeth ar gyfer ymchwil unigol gael ei chynnwys yn yr asesiad nad yw'n arholiad ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y sgiliau ymarferol, dadansoddol a gwerthusol sy'n gysylltiedig ag Astudio'r Cyfryngau yn cael lefel briodol o gydnabyddiaeth.

Felly, cynigiwn y dylai'r asesiad nad yw'n arholiad lunio 40% o asesiad cyfan y cymhwyster TGAU newydd mewn Astudio'r Cyfryngau ar gyfer Cymru.

C7: I ba raddau yr ydych yn cytuno/anghytuno â phwysoliadau arfaethedig yr asesiad nad yw'n arholiad ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



TGAU Astudio'r Cyfryngau

Gofynion asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau

Mynegodd rhanddeiliaid yng Nghymru y dylai dysgwyr allu cael eu hasesu trwy ddull cydweithredol o gynhyrchu'r cyfryngau, sy'n adlewyrchu'r arferion presennol a ddefnyddir mewn Addysg Uwch ac yn y diwydiant cyfryngau byd-eang.

Hefyd, roedd rhanddeiliaid yn cefnogi cynnwys ymchwil a chynllunio, sy'n gysylltiedig â chynhyrchu, o fewn yr asesiad nad yw'n arholiad ar gyfer y TGAU diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru.

Cynigiwn y gofynion canlynol ar gyfer elfen yr asesiad nad yw'n arholiad o'r TGAU diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru:

Cymhwyster	Gofynion arfaethedig ar gyfer Cymru
TGAU	Un cynhyrchiad y cyfryngau gydag asesiad o ymchwil, datblygu a myfyrio unigol, gan gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o iaith y cyfryngau a chynrychiolaeth. Bydd y corff dyfarnu yn gosod briffiau ac yn eu hadolygu bob blwyddyn.

Cynigiwn ymhellach y gall cynhyrchiad y cyfryngau gael ei gynhyrchu gan unigolyn neu grŵp o ddysgwyr. Lle y bo grŵp o ddysgwyr wedi cydweithio i greu cynhyrchiad y cyfryngau, bydd disgwyl i gyfraniad pob unigolyn gael ei amlygu.

C8a: I ba raddau yr ydych yn cytuno/anghytuno â'r gofyniad arfaethedig ar gyfer yr asesiad nad yw'n arholiad ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

C8b: I ba raddau yr ydych yn cytuno/anghytuno y gall cynhyrchiad y cyfryngau fod yn dasg unigol neu'n dasg grŵp ar gyfer TGAU mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



TGAU Astudio'r Cyfryngau

Haenu

Mewn rhai cymwysterau TGAU, caiff rhan o'r cymhwyster, neu'r cymhwyster cyfan, ei asesu drwy bapurau arholiad haenog. Mewn asesiadau haenog, mae gwahanol raddau ar gael ar bob haen; yn y rhan fwyaf o gymwysterau TGAU y graddau posibl yw A* i D yn yr haen uchaf, a graddau C i G yn yr haen sylfaen. Mae cymwysterau TGAU mewn rhai pynciau yn haenog oherwydd ar gyfer rhai pynciau caiff lefel anhawster yr asesiad ei phennu yn fwy gan y ffordd y mae ymgeiswyr yn ymateb i gwestiynau (cwestiynau ar ffurf traethawd er enghraifft) yn hytrach na'r cwestiwn ei hun, tra mewn pynciau eraill caiff y lefel o anhawster ei phennu'n fwy gan natur y cwestiwn a ofynnir na'r ateb a roddir (megis lle nad oes ond un ateb cywir). Mae pynciau sy'n dibynnu mwy ar anhawster y cwestiynau i wahaniaethu rhwng ymgeiswyr yn tueddu i gael asesiad haenog. Mae asesiad haenog yn osgoi'r heriau sy'n gysylltiedig â cheisio gosod un papur er mwyn asesu carfan gyfan. Oni fyddai'r pynciau hyn yn haenog, yna byddai'n rhaid i'r papurau arholiad fod yn fwy er mwyn cynnwys digon o gwestiynau ar bob lefel o anhawster, a fyddai'n cynyddu faint o asesiad y byddai ei angen. Mae hefyd risg y byddai'r asesiad yn llai dibynadwy, oherwydd bod ymchwil yn dangos bod yr ymgeiswyr mwy galluog yn aml yn colli marciau ar gwestiynau llai heriol a bod ymgeiswyr llai galluog yn colli cymhelliant gan y cwestiynau mwy heriol.

Mae'r Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru yn argymhell “ *dim ond pan fydd achos clir dros wneud hynny oherwydd natur y pwnc y dylid caniatáu haenu* ”.

Cynigiwn na fydd y cymhwyster TGAU Astudio'r Cyfryngau diwygiedig yn gymhwyster haenog.

C9: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno na ddylai'r cymhwyster TGAU Astudio'r Cyfryngau for yn haenog?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



Datblygiad proffesiynol parhaus/adnoddau

C10: Yn eich barn chi, pa gymorth ac adnoddau y gallai fod eu hangen ar ganolfannau ac athrawon er mwyn bod yn gwbl barod i gyflwyno'r fanyleb ddiwygiedig?

Rhowch sylwadau



TGAU Astudio'r Cyfryngau

Effaith ar gydraddoldeb

Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010 rhaid i gyrff cyhoeddus roi 'sylw dyledus', wrth wneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth mewn perthynas ag unigolion na grwpiau, er mwyn cyflawni cydraddoldeb a meithrin cydberthnasau da o ran nodweddion gwarchoddedig (oedran, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, crefydd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth ac ailbennu rhywedd).

C11: O ystyried hyn, nodwch isod a allai unrhyw ran o'r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig a ph'un a fyddai unrhyw ran o'r cynnig yn peri problemau o ran hygyrchedd i ddysgwyr yng Nghymru.



TGAU Astudio'r Cyfryngau

Manylion personol

Cyfranogwyr dan 16 oed - gofynnir i BEIDIO â llenwi'r adran hon.

Os ydych yn cyflenwi manylion cyswllt, efallai y byddwn yn cysylltu â chi am eglurhad am eich atebion. Ni fydd Cymwysterau Cymru (CC) yn rhannu'r manylion hyn, neu fanylion am eich atebion gydag unrhyw drydydd.

Manylion personol

Enw

Sefydliad

Cyferiad ebost

A ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran eich sefydliad?

- Unigolyn
- Sefydliad

Dewiswch y math o sefydliad neu dewiswch 'ddim yn berthnasol' os ydych yn ymateb fel unigolyn

- Ysgol
- Coleg
- Prifysgol
- Corff Dyfarnu Cymhwysterau
- Llywodraeth (Lleol, Cenedlaethol, DU neu'r UE)
- Ddim yn perthnasol
- Arall

A ydych yn: (dewiswch fel sy'n briodol)

- Athro
- Darlithydd Coleg
- Darlithydd y Brifysgol
- Myfyrwr/ddisgybl
- Rhiant
- Arall